# HumiGard ar gyfer atal hypothermia amlawdriniaethol anfwriadol

8 Chwefror 2017

## Gwybodaeth i'r cyhoedd

Mae NICE wedi asesu HumiGard ar gyfer atal hypothermia amlawdriniaethol anfwriadol er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn ai peidio.

Mae HumiGard yn ddyfais a ddefnyddir i leithio a gwresogi nwy carbon deuocsid, a ddefnyddir yn aml i lenwi'r abdomen yn ystod llawdriniaeth twll clo. Mae llenwi'r abdomen â nwy yn helpu i gynnal pwysedd a lleihau'r risg o gymhlethdodau. Gellir hefyd defnyddio HumiGard mewn llawdriniaeth agored, drwy ddefnyddio tryledydd wedi'i greu'n arbennig i amgylchynu'r clwyf llawfeddygol agored â nwy carbon deuocsid wedi'i gynhesu a'i leithio.

Gall cynhesu'r nwy hwn yn ystod llawdriniaeth agored a thwll clo atal gwres cyrff cleifion rhag gostwng yn rhy isel (gelwir yn hypothermia amlawdriniaethol).

Mae HumiGard yn dangos addewid ond nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi ei ddefnyddio fel mater o drefn yn y GIG. Mae NICE wedi argymell gwneud mwy o ymchwil ar ba mor dda mae HumiGard yn gweithio o gymharu â nwy chwythiad safonol.

ISBN: 978-1-4731-7656-0